Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

31 Mai 2023

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI: 'AROLYGIAD O BA MOR DDA Y MAE'R HEDDLU A'R ASIANTAETH TROSEDDU CENEDLAETHOL YN MYND I'R AFAEL Â CHAM DRIN PLANT YN RHYWIOL A CHAMFANTEISIO AR BLANT YN RHYWIOL AR-LEIN'.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o arolygiadau thematig o heddluoedd. Edrychodd yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi hon ar ba mor effeithiol y mae heddluoedd a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn mynd i'r afael â phroblem gynyddol cam drin rhywiol ar-lein gan ganolbwyntio ar blant yn benodol. Canfu'r arolygiad fod sawl tîm ymroddedig ac ymchwilwyr angerddol yn yr heddlu sy'n awyddus i weithio'n ddiwyd ac yn gyson er mwyn diogelu plant ar-lein.

Mae'r mater hwn yn bwysig iawn, yn enwedig ar gyfer y genhedlaeth o bobl ifanc sy'n defnyddio'r ceisiadau ar-lein, megis y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'u bywydau pob dydd. Nodwyd argymhellion yr adroddiad gennyf a byddaf yn uno unrhyw feysydd sy'n peri pryder â'n dulliau craffu a goruchwylio yn Heddlu De Cymru.

Rydw i a'n Prif Gwnstabl yn awyddus i sicrhau bod safonau uchaf y systemau a'r timau ymroddedig ar waith er mwyn bod yn ddiflino yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â Cham drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol ar-lein.

Mae'r Prif Gwnstabl yn crynhoi ei farn am yr adroddiad fel a ganlyn:

'Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod y canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ac mae'n gwbl ymrwymedig i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o gam drin plant yn rhywiol a chamfanteisio ar blant yn rhywiol ar-lein.

Mae'r heddlu wedi addasu ei strwythur rheoli yn ddiweddar ac wedi canoli'r gwaith strategol o reoli'r timau ymroddedig ac mae wedi buddsoddi yn ei alluoedd i wella ei

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
g:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

ymateb i'r troseddau erchyll a lladradaidd hyn.Mae'r newid mewn strwythur a ffocws ychwanegol hwn yn ceisio gwella ein gallu ymchwiliol a chael canlyniadau gwell i blant.

Bydd Heddlu De Cymru yn parhau i gydweithio â phartneriaid diogelu statudol yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol a Cham-drin Plant yn Rhywiol ac er mwyn diogelu plant wrth adnabod a dwyn y troseddwyr sy'n peri risg i blant gerbron y llys ar fyrder tra'n cefnogi'r dioddefwyr.'

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am ei sylwadau a'i ymrwymiad i ddiogelu plant ar-lein. Mae'n amlwg bod Heddlu De Cymru yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol hon. Byddaf yn sicrhau bod fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i ystyried goruchwyliaeth bellach ar y mater hwn.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
g:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English